

## Cyngor Cymuned Cerrigydrudion

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed Ebrill 2019

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, John D Jones, Prys Ellis, Maria Roberts, Guto G Jones, Trystan Humphreys, Einion Edwards, Cyngorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Ffuon Williams, Ieuan Jones.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed Fawrth 2019.

Materion yn Codi

#### [1] Yr Heddlu

Nodwyd y wybodaeth gan y blismones Delia Bellis ynglŷn â digwyddiad o dorri ffenestri a.y.b. yn y pentref yn ddiweddar.

#### [1.1] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Nodwyd bod y mater yn parhau.

#### [1.2] Ffermydd Gwynt/ Cyfraniad Clean Earth

Penderfynwyd dosbarthu peth o'r arian [£2,500] a dderbyniwyd gan Clean Earth fel a ganlyn; Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Cerrig £500.00, Y Llyfrgell £300.00 gyda £200.00 yr un i'r canlynol

Adran yr Urdd Cerrig, Y Gorlan, Ysgol Feithrin, Elusen Addysgol, Clwb Peldroed Cerrig, Clwb Snwcer Cerrig.

#### [1.3] Pont Pentrellyncymer

Deallwyd fod y gwaith o atgyweirio'r bont heb gael sylw. Clerc i gysylltu'n bellach gyda'r Cyngor Sir.

#### [1.4] Arwyddion wrth yr Ysgol

Y clerch i anfon gwahoddiad i'r peiriannydd Wil Roberts [Cyngor BS Conwy] gwrdd ar Cyngor Cymuned i drafod materion cyflymder gyferbyn a'r ysgol.

#### [1.5] Peiriant Twll yn y Wal / Codi Taliad am ei Ddefnydd

Cyfeiriodd y clerch at ateb oddiwrth Marc Jones [Plaid Cymru] yn datgan nad oedd y cwmni Cardtonics yn barod i gydnabod y pryderon ynglŷn â chodi tal am ddefnyddio'r peiriant.

Y brif Agenda

[1.6] Ms Helen Williams/Tir yn Nghae Llwyd  
Nodwyd fod y mater yn parhau.

[1.7] Maes Carafanau Pentre' Draw.

Deallwyd nad oedd y biniau ysbwriel wedi cyrraedd mewn pryd ar gyfer tymor y Gwanwyn/Haf. Y  
clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglun a'r mater

Cadeirydd\_\_\_\_\_